

Cofion a Chyfarchion

Anfonwn ein cofion at Dilys Jones (Nantglyn) sy'n cael gofal yn yr Inffirmari erbyn hyn, a Helen Pritchard (Llansannan) sydd bellach adref o'r ysbyty – y ddwy wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan iddynt a gweddiwn y bydd y ddwy ohonynt, a phawb arall sydd heb fod cystal eu hiechyd, yn profi gofal a chariad a daioni Duw yn eu hamgylchynu dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn wrth iddynt gryfhau.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gwenfyl Jones (Llansannan) ar ddatlu pen-blwydd arbennig!

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Arian Sasiwn Chwiorydd y Gogledd

Bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniadau tuag at Gasgliad Arbennig y Chwiorydd 2020 mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda.

Cywaith Ysgolion Sul Henaduriaeth Dyffryn Clwyd

Gair i'ch atgoffa bod gwahoddiad eto eleni i'r plant a/neu'r oedolion i wneud cyfraniad tuag at gywaith yr Ysgol Sul. Y testun a osodwyd yw "**Edrych ar ôl Byd Duw**". Cewch ddehongli'r testun mewn unrhyw dull neu fodd gan ddefnyddio sgiliau cynllunio creadigol, ymchwil a datblygu syniadau hefo eraill yn yr Ysgol Sul.

Derbynnir y cyfraniadau yng Nghapel y Dyffryn, Llandyrnog **nos Lun, Ebrill 6^{ed} rhwng 7.00 ac 8.00 o'r gloch**. Gofynnir i chi roi enw pob un yn eglur ar y gwaith.

Os ydych am baratoi arddangosfa flodau, gofynnir i chi fynd â'r trefniant i Gapel y Dyffryn erbyn 5.30 nos Wener, Mai 15^{fed}.

I ddod

- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Cefn Meiriadog nos Fawrth, Mawrth 17eg am 7.30 yng nghwmni Heledd Iago fydd yn siarad am waith 'Baby Basics Dyffryn Clwyd'. Bydd casgliad y noson yn cael ei roi tuag at waith yr elusen.
- **LLANW** – Bydd gŵyl Gristnogol Llanw yn cael ei chynnal yn Ninbych y Pysgod yn 2020 a hynny rhwng Ebrill 13^{eg} – 17^{eg}. Y prif siaradwr eleni fydd y Parch. Ddr Andras Iago. Ewch i'r wefan www.llanw.org i archebu ac/neu am fwy o fanylion.



Llais Bro Aled

Mawrth 1^{af} ac 8^{fed}, 2020

DILYNWCH NI AR TWITTER:
[@eglwysibroaled](https://twitter.com/eglwysibroaled)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Bore da i chi wrth i Gymry ledled y byd ddathlu Dydd Gŵyl Dewi! Ac wrth i ni wneud hynny, diolchwn i'r Arglwydd am ei ras rhyfeddol tuag atom fel cenedl dros y canrifoedd wrth i'r Efyngyl fynd ar led a chael y fath ddylanwad. Er ein bod yn dathlu ein Cymreictod, cofiwn wrth i ni addoli heddiw ein bod yn gwneud hynny fel rhan o dyrfa niferus ac amrywiol sef eglwys fyd-eang Iesu Grist ar hyd yr oesoedd. Yn ein mawl datganwn mai 'i'r Arglwydd y perthyn brenhiniaeth, ac ef sy'n llywodraethu dros y cenedloedd.' (Salm 22:28)

Faint ohonoch sydd wedi cael y profiad braf o ddarganfod rhywbeth yr oeddech wedi'i gollu ers tro, ac wedi anobeithio'n llwyr o weld y peth hwnnw byth eto? Boed yn declyn, yn llyfr neu hyd yn oed yn rysâit arbennig, mae'r llawenydd o ail-ddarganfod yn brofiad cyffredin i nifer. Gwnaed darganfyddiad digon rhyfedd yn San Steffan yn ddiweddar wrth i hen gyntedd nad oedd neb yn gwybod amdano ddod i'r golwg am y tro cyntaf ers o leiaf hanner canrif! Yn ôl y stori newyddion, mae'n debyg mai dyma'r llwybr a gerddodd y Brenin Siarl II i'r Senedd dair canrif a hanner yn ôl, ac yn y cyntedd cuddiedig roedd graffiti yn dyddio o 1851 i'w weld – y flwyddyn pan gaewyd y llwybr gan frics!

Ceir nifer o hanesion yn y Beibl am ail-ddarganfod yr hyn a gollwyd. Meddyliwch am y brenin Joseia yn 2 Brenhinoedd 22 yn rhwygo'i ddillad ac yn torri ei galon pan gafwyd hyd i gyfraith Duw yn y Deml, a phobl Dduw wedi hen anghofio mai hwn oedd i fod yn llusern i'w traed ac yn oleuni i'w llwybr. Er mor ddramatig yw'r hanes hwnnw, mae'n rhybudd clir i bobl Dduw ym mhob oes mor hawdd yw ymdoddi i mewn i'r gymdeithas o'n cwmpas a gadael Gair Duw ar ôl. Ond wrth gwrs, mae cymaint mwy i Gristnogaeth na dim ond cadw'r Beibl yn ganolog i'n bywydau – mae'n berthynas fyw rhwng pobl â'r Arglwydd a'u creodd. A dyma lle mae'r darlun o golli a darganfod o'r Testament Newydd yn rhoi'r fath gysur i ni. Pwrpas mawr Iesu yn dod i'r byd oedd nid ail-ddarganfod hen arferion a thraddodiadau, ond dod i achub pobl golledig, a'u dychwelyd i berthynas gariadus â Duw. Pobl fel chi a fi yw'r rhai colledig, pawb ohonom sydd wedi cael ein caethiwo gan bechod a'n dallu gan hunan-gyfiawnder. Ond mae gobaith i bob un colledig sy'n barod i ymateb mewn ffydd i Grist trwy edifarhau a dod ato am faddeuant a bywyd newydd. Pam bod gobaith? Oherwydd cariad Crist, a bod methiant ymddangosiadol y Groes yn fuddugoliaeth fendigedig: "Daeth Mab y Dyn i geisio ac i achub y colledig." (Luc 19:10) Peidiwn ag anghofio hynny!

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 1^{af} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 4^{ydd} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Festri Capel **Henllan** am 7.30 (*sylwch ar y lleoliad gwahanol i'r arfer*).
- Iau – 5^{ed} ➤ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener – 6^{ed} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Nhŷ Capel Cefn Meiriadog rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul nesaf – 8^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 11^{eg} ➤ **Torri Syched** – Bydd y grwpiau tai yn cyfarfod am 7.30.
- Iau – 12^{fed} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
- Sul canlynol – 15^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

- Sul yma – 1^{af} ➤ Cynhelir gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn Groes am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 11.00.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 9.30 a bydd Oedfa Gŵyl Ddewi Undebol yn y capel am 2.00.
- Cynhelir gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgolion Sul y plant yn cydreddeg.
- Sul nesaf – 8^{fed} ➤ Bydd y Parch. Eric Greene yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 9.30 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg.
- Cynhelir yr Ysgol Sul yn Groes am 10.00 a bydd y Parch. Eric Greene yn arwain oedfa yno am 11.00.
- Sul canlynol – 15^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu yn Henllan am 9.30 a bydd Ysgol Sul yn Groes am 10.45.
- Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yno am 11.00.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (18^{fed}), os gwelwch yn dda.

Peniel, Saron a Nantglyn

- Sul yma – 1^{af} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 8^{fed} ➤ Cynhelir gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn Saron am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00. Bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais gudd ar ddechrau'r oedfa yn Nantglyn i ofyn a yw'r eglwys yn awyddus i ethol blaenoriaid newydd.
- Sul canlynol – 15^{fed} ➤ Bydd Dafydd Timothy yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

- Sul yma – 1^{af} ➤ Bydd Mr Gwion Dafydd yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 10.30.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a bydd gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yn dilyn am 10.30.
- Mercher – 4^{ydd} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (1^{af})**, os gwelwch yn dda.
- Iau – 5^{ed} ➤ Cynhelir cyfarfod Dydd Gweddi'r Byd yn Llansannan am 7.00.
- Gwener – 6^{ed} ➤ Cynhelir Swper Gŵyl Ddewi Cymdeithas Llansannan yn y Festri am 7.00. Y gŵr gwadd fydd Dr Goronwy Wynne. Enwau i Alun, Wenna neu Ann Evans **erbyn dydd Sul (1^{af})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 8^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 10.30.
- Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yno am 11.00.
- Mercher – 11^{eg} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (8^{fed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 15^{fed} ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Llanfair am 9.30 a bydd Ysgol Sul yn Llanfair a Cefn Meiriadog am 11.00. Bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais gudd ar ddechrau'r oedfa yn Llanfair i ofyn a yw'r eglwys yn awyddus i ethol blaenoriaid newydd.
- Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00 a bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa am 11.00.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.